CYNGOR DINAS CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARU YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG/SAESNEG

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

1. Cynyddu maint Ysgol Glan Morfa, Moorland Road, Caerdydd, CF24 2LJ, o fod yn ysgol â 210 o leoedd i ysgol â 420 o leoedd gyda 80 lle meithrin rhan amser er mwyn gwasanaethu'r ystod oedran 3-11 o fis Medi 2017.

2. Symud yr Ysgol Glan Morfa fwy i ysgol gynradd newydd â 420 o leoedd ar safle newydd yn y Maltings o fis Medi 2017.

3. Cynyddu maint Ysgol Gynradd Moorland, Moorland Road, Caerdydd, CF24 2LJ, o fod yn ysgol â 382 o leoedd i fod yn ysgol â 630 o leoedd gydag hyd at 96 lle meithrin rhan amser er mwyn gwasanaethu'r ystod oedran 3-11 gan ddefnyddio adeiladau gwag Ysgol Glan Morfa o fis Medi 2017.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif

Ar hyn o bryd mae 180 o ddisgyblion yn Ysgol Glan Morfa (Derbyn i Bl6), a gall dderbyn 210 ar hyn o bryd a chynigir cynyddu'r capasiti pan fo'r cynnig wedi'i weithredu i 420.

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i Ysgol Glan Morfa yn y Dosbarth Derbyn (y grŵp oedran perthnasol) yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 60.

Bydd 80 o leoedd meithrin rhan amser yn yr ysgol a fydd yn galluogi i hyd at 80 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) dderbyn addysg feithrin rhan amser yn Ysgol Glan Morfa.

Ar hyn o bryd mae 407 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Moorland (Derbyn i Bl6), a gall dderbyn 382 ar hyn o bryd a chynigir cynyddu'r capasiti pan fo'r cynnig wedi'i weithredu i 630.

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn (y grŵp oedran perthnasol) yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 90.

Bydd 96 o leoedd meithrin rhan amser yn yr ysgol a fydd yn galluogi i hyd at 96 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) dderbyn addysg feithrin rhan amser yn Ysgol Gynradd Moorland.

Bydd rhieni plant a dderbyniwyd ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr Ysgol os ydynt am i'w plentyn i symud i'r dosbarth derbyn yn Ysgol Glan Morfa neu Ysgol Gynradd Moorland. Ni fydd mynychu'r feithrinfa'n sicrhau lle yn yr ysgol.

Bydd yr ysgolion yn parhau'n ysgolion cymunedol a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgolion, a'r Awdurdod sy'n pennu'r meini prawf derbyn.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae gwybodaeth fanwl o ran trefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor a gellir gweld y llyfryn hwn ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl gallu na bandio disgyblion.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 02 Chwefror 2016.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Dinas Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Dinas Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk

Noder bod yn rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 06 Ionawr 2016

Llofnod: Marie Rosenthal
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Byddai unrhyw newidiadau i'r adeilad ysgol presennol neu unrhyw adeiladau newydd a fyddai'n ofynnol pe bai'r cynnig uchod yn cael ei roi ar waith yn gyfartal â/ diwallu amodau cyllido Llywodraeth Cymru (LlC) fel BREEAM ac yn cael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Ardal yr Adran Addysg ar gyfer ysgolion prif ffrwd – Bwletin Adeiladau sy'n nodi bod angen cynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

Man addysgu: mewnol ac allanol
Ardaloedd Adnoddau Dysgu
Storfa
Cyfleusterau cegin
Mannau penodol i gefnogi gwaith grŵp/AAA
Neuaddau, ardaloedd bwyta
Staff a gweinyddu
Tai bach a gofal personol
Cylchrediad, Peiriannau a waliau mewnol

Byddai pob dyluniad manwl o'r cyfleusterau yn yr adeiladau ysgol newydd/presennol yn cael eu cytuno rhwng y Cyngor, y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth os bydd cynnig yn cael ei roi ar waith.

Mae cynlluniau yn dangos mapiau o'r safleoedd ysgol/safle Maltings a sut y byddai'r safleoedd yn edrych i'w gweld ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk

Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig, gallai fod angen cynnal ymgynghoriad yn ddiweddarach ar newid y dalgylch i rai, neu bob un, o bedwar dalgylch yr ysgolion cynradd Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows (Ysgol Gynradd Adamsdown, Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd Moorland ac Ysgol Gynradd Stacey) er mwyn sicrhau cyfatebiaeth well rhwng poblogaethau dalgylchoedd y dyfodol a chapasiti ysgolion lleol.

Gallai hefyd fod angen ymgynghori'n ddiweddarach ar newid trefniadau dalgylch Ysgol Glan Morfa, ac felly dalgylchoedd ysgolion cynradd Cymraeg cyfagos, i sicrhau cyfatebiaeth well rhwng poblogaethau dalgylchoedd y dyfodol a chapasiti ysgolion lleol.